Enwebiadau ar gyfer Is-Gadeirydd y CCSAGauC (28 Mehefin 2019)

Nominations for the position of Vice Chair of WASACRE (28 June 2019)

1. **Rachel Samuel CYSAG Castell Nedd Port Talbot**

Mae Rachel wedi bod yn aelod o CYSAG Castell Nedd Port Talbot ers y chwe blynedd diwethaf lle cafodd brofiad helaeth o ddeall rolau a chyfrifoldebau CYSAG a'r ddeddfwriaeth a'r protocol sydd ynghlwm â swyddogaeth CYSAG. Hi oedd is-gadeirydd CYSAG Castell Nedd Port Talbot yn y chwe blynedd diwethaf. Yn ogystal mae Rachel wedi rhoi cymorth cynghori proffesiynol i'r CYSAG, gan roi arweiniad i aelodau CYSAG ar faterion sy'n benodol i Addysg Grefyddol o bwysigrwydd lleol a chenedlaethol. Mae cyfrifoldebau Rachel yn cynnwys cyfrannu at osod agenda'r CYSAG ac arwain ar y rhan fwyaf o'r materion yn ystod cyfarfodydd CYSAG. Mae Rachel yn mynychu cyfarfodydd y Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG) a Chymdeithas CCYSAGau Cymru ar ran Castell Nedd Port Talbot.

Daeth Rachel yn aelod gweithgar o PYCAG yn ystod y tair blynedd diwethaf a bu'n cymryd rhan mewn trafodaethau am y cyfleoedd a'r heriau cyfredol sydd ynghlwm â dyfodol Addysg Grefyddol yn y cwricwlwm - y rhai presennol a rhai newydd. Yn ogystal, fe'i gwahoddwyd i fod yn aelod athrawes o'r gweithgor sy'n datblygu'r Fframwaith Addysg Grefyddol newydd. Cred y bydd y fframwaith hwn yn cynnig y cymorth sydd ei angen ar ymarferwyr sy'n cyflwyno Addysg Grefyddol o fewn Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Mae Rachel yn gwerthfawrogi'r cyfle i fod yn rhan o dîm sy'n dylanwadu ar ddatblygiadau mewn Addysg Grefyddol ac a fydd o fudd i blant a phobl ifanc Cymru yn y dyfodol.

Mae Rachel wedi bod yn athrawes Addysg / Astudiaethau Crefyddol ers dros 21 mlynedd yn dysgu mewn amryw o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Ar hyn o bryd mae Rachel yn dysgu yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera, sy'n ysgol cyfrwng Cymraeg 3-18. Mae Rachel yn bennaeth adran brofiadol ac mewn ysgol flaenorol bu'n Bennaeth Cynorthwyol gyda chyfrifoldeb am yr agenda Sgiliau ar draws yr ysgol am gyfnod o dair blynedd. Drwy gydol ei gyrfa dysgu, mae hi bob amser wedi bod yn frwd dros Addysg Grefyddol, ei gwerth o fewn cwricwlwm yr ysgol gyfan ac i ddatblygiad y disgybl unigol wrth iddynt fynd drwy addysg ac yn y pen draw i'r gweithle. Mae gan Rachel brofiad helaeth fel Arholwr TGAU a Lefel A a Phrif Arholwr i CBAC a bu'n ddirprwy brif gymedrolwr ar gyfer cymedroli lefelau CA3. Mae Rachel hefyd wedi cynghori athrawon mewn gwahanol ysgolion fel eu bod yn deall y pwnc a gofynion y fanyleb drwy ei gwaith fel Prif Ymarferydd AG i ERW y llynedd ac fel aelod o weithgor CYDAG yn creu adnoddau cyfrwng Cymraeg i'r cyrsiau newydd TGAU a Lefel A mewn Moeseg ac Athroniaeth.

Byddai Rachel yn gwerthfawrogi'r cyfle i gymryd rhan bellach mewn datblygu Addysg Grefyddol yng Nghymru fel aelod o Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC ac mae hi'n ddiolchgar y byddai'n cael cefnogaeth lawn y Pennaeth yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera i ymgymryd â'r dyletswyddau a fyddai'n ofynnol gan y swydd.

1. Rachel Samuel Neath Port Talbot SACRE

Rachel has been a member of Neath Port Talbot SACRE for the last six years where she has gained a wealth of experiences in understanding the roles and responsibilities of SACRE and the legislation and protocol surrounding the function of SACRE. She has been the vice-chair of NPT SACRE for the past six years. In addition Rachel has provided professional advisory support to the SACRE guiding SACRE members on Religious Education specific matters of local and national importance. Rachel's responsibilities include contributing to the setting the SACRE agenda and leading on majority of the business during SACRE meetings. Rachel attends meetings of the National Advisory Panel for Religious Education (NAPfRE) and the Wales Association of SACREs (WASACRE) on behalf of Neath Port Talbot.

Rachel has become an active member of NAPfRE during the last three years and has been involved in discussions surrounding the current opportunities and challenges surrounding the future of Religious Education within the curriculum - both present and the new. In addition, she has been invited to be a teacher member of the working group developing the new Religious Education Framework. She believes that this framework will offer the needed assistance to practitioners delivering Religious Education within the Humanities Area of Learning and Experience. Rachel values the opportunity to be part of the team informing developments within Religious Education and benefitting the children and young people of Wales into the future.

Rachel has been a Religious Education / Studies teacher for over 21 years teaching within a range of English and Welsh medium secondary schools. Currently Rachel teaches Ysgol Gymraeg Ystalyfera, which is a 3-18 Welsh medium school. Rachel is an experienced head of department and as an Assistant Head with responsibility for the Skills agenda across the school for a three-year period in a previous school. Throughout her teaching career she has always had a passion for Religious Education, its value within the whole school curriculum and to the development of the individual pupil as they progress through education and ultimately into the workplace. Rachel has a wealth of experience as a GCSE and A Level Examiner and Principal Examiner for the WJEC and was the deputy chief moderator for KS3 standardisation of levels. In addition Rachel has advised teachers across schools in their understanding of the subject and specification requirements through her work as ERW Lead Practitioner for RE last year and as a member of a CYDAG working party creating Welsh medium resources for both the new GCSE and A Level Ethics and Philosophy courses.

Rachel would value the opportunity to become further involved in progressing Religious Education within Wales as an Executive Member of WASACRE and is grateful that she would be fully supported by the Head teacher at Ysgol Gymraeg Ystalyfera in carrying out the duties that this role would require.